NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Gofal i fenywod â chyflyrau meddygol sydd eisoes yn bodoli neu gymhlethdodau obstetrig a'u babanod yn ystod genedigaeth

6 Mawrth 2019

## *Gofal yn ystod y cyfnod esgor a'r enedigaeth i fenywod â chyflyrau meddygol neu gymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd neu'r cyfnod esgor*

Ni fydd y rhan fwyaf o fenywod yn cael unrhyw broblemau yn ystod y cyfnod esgor a'r enedigaeth, ond bydd angen gofal ychwanegol ar rai am eu bod yn fwy tebygol o gael cymhlethdodau. Er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd y canlynol:

- mae'r fenyw wedi cael toriad cesaraidd yn ystod beichiogrwydd blaenorol
- credir bod y babi naill ai'n fach iawn neu'n fawr iawn
- mae problem yn digwydd yn ystod camau cynnar y cyfnod esgor, er enghraifft, mae'r babi'n troi â'i ben ôl yn gyntaf (a elwir yn enedigaeth ‘o chwith’) yn hytrach na bod â'i ben yn gyntaf
- mae gan y fenyw gyflwr meddygol, megis clefyd y galon neu'r arennau.

Hoffem sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i fenywod a babanod y mae angen gofal ychwanegol arnynt yn ystod y cyfnod esgor a'r enedigaeth drwy sicrhau bod timau gofal yn gwneud y canlynol:

- cynnwys menywod mewn penderfyniadau ar eu gofal ar bob cam
- esbonio beth mae'n ei olygu pe bai cymhlethdodau'n digwydd yn ystod y cyfnod esgor a'r ffordd y gallai hyn effeithio ar unrhyw ddewisiadau y mae'r menywod wedi'u gwneud yn eu cynllun geni
- esbonio pam y gallai monitro cyfradd curiad calon y babi yn ystod y cyfnod esgor gael ei argymell er mwyn gweld a yw'r babi'n ymdopi'n iawn

trafod opsiynau ar gyfer y cyfnod esgor a'r enedigaeth gyda'r menywod sydd â chyflyrau meddygol a chynnwys arbenigwyr y cyflyrau hynny.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

## *Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd*

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich tîm gofal roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi, ateb eich cwestiynau a gwrando'n ofalus ar eich sylwadau a'ch pryderon.

Dylent hefyd wneud y canlynol:

- sicrhau eich bod yn deall yn llawn beth sy'n digwydd pe bai cymhlethdod yn ystod y cyfnod esgor, a beth allai ddigwydd nesaf
- sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau i chi ac i'ch babi yn sgil gwahanol opsiynau, gan gynnwys unrhyw ansicrwydd
- parchu'r hyn sy'n bwysig i chi, a chefnogi eich cynlluniau a'ch dymuniadau ar gyfer rhoi genedigaeth gymaint â phosibl

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, rhowch wybod i'r tîm gofal sy'n gofalu amdanoch.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn ystod y cyfnod esgor a'r enedigaeth a beichiogrwydd i fenywod sydd â chyflyrau iechyd sydd eisoes yn bodoli.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Action on Pre-eclampsia (APEC), 01386 761848
- Bliss, 020 7378 1122
- Twins and Multiple Births Association (Tamba), 01252 332344

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Lluniwyd y canllaw hwn ar y cyd â phobl sy'n ymwneud â chefnogi menywod y mae angen gofal ychwanegol arnynt yn ystod y cyfnod esgor a'r enedigaeth. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3297-9



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.